**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

329/51

**CYMDEITHASEG SOC3**

**UNED 3 – DEALL DIWYLLIANT**

A.M. DYDD MERCHER, 23 Mai 2007

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch bob cwestiwn o **UN** opsiwn yn unig.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

*Atebwch bob cwestiwn o* **un** *opsiwn yn unig*.

## Opsiwn 1: Addysg

**1.** Darllenwch eitemau **A** a **B**, ac yna atebwch **bob un** o'r cwestiynau sy'n dilyn.

### Eitem A

# Ethnigrwydd, addysg a chyflogaeth

Mae cyflawniadau addysgol wedi helpu plant i rieni o'r dosbarth gweithiol yn y cymunedau Caribïaidd, Affricanaidd, Indiaidd a Tsieineaidd i sicrhau swyddi â statws uchel ar raddfa gyflymach na'u cymheiriaid *(counterparts)* gwyn.

Mewn ymchwil a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree i **gyrhaeddiad addysgol gwahaniaethol** *(differential educational attainment)* ymysg grwpiau ethnig, cafwyd bod pobl ifanc Caribïaidd, Affricanaidd Du, Indiaidd a Tsieineaidd yn y DU yn fwy tebygol o sicrhau swyddi proffesiynol na phobl ifanc gwyn.

Yn yr un astudiaeth, cafwyd bod pobl ifanc o'r gymuned Bacistanaidd yn eithriad. Er bod y mwyafrif o'u rhieni yn perthyn i'r dosbarth gweithiol, maent yn dangos llai o symudiad i gyfeiriad gwaith â thâl uwch na phlant teuluoedd y dosbarth gweithiol gwyn.

Dywedodd Lucinda Platt, Darlithydd mewn Cymdeithaseg: 'Y newyddion da yw mai plant i rieni oedd yn fewnfudwyr yw llawer o'r bobl ifanc sy'n llwyddo. Ond mae'n ymddangos ei bod cymaint yn anoddach i bobl ifanc o deuluoedd Pacistanaidd a Bangladeshaidd ddod ymlaen. Fe ddylem wneud llawer mwy i ddeall pam mae hynny'n digwydd ac i ba raddau mae ffactorau megis gwahaniaethu hiliol yn gysylltiedig â hynny.'

*Ffynhonnell:* addasiad o http://www.jrf.org.uk

**Eitem B**

## Cyrhaeddiad o bump neu fwy o raddau TGAU A* i C:[1] yn ôl grŵp ethnig

| Cymru a Lloegr | | | | Canrannau |
|---|---|---|---|---|
| | 1992 | 1996 | 2000 | 2004 |
| Gwyn | *37* | *45* | *50* | *54* |
| Indiaidd | *38* | *48* | *60* | *72* |
| Pacistanaidd | *26* | *23* | *29* | *37* |
| Bangladeshaidd | *14* | *25* | *29* | *46* |
| Asiaidd arall[2] | *46* | *61* | *72* | *66* |
| Du | *23* | *23* | *39* | *35* |
| Grŵp ethnig arall[3] | .. | *46* | *43* | *59* |

*1 Cyrhaeddiad ym Mlwyddyn 11.*
*2 Yn cynnwys y grŵp Tsieineaidd.*
*3 Data ar gyfer 1992 ddim ar gael oherwydd maint bychan y sampl.*

*Ffynhonnell: Astudiaeth Carfan Ieuenctid, Adran Addysg a Sgiliau*

*Ffynhonnell: Social Trends 36* (argraffiad 2006), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

*(a)* Gan ddefnyddio **Eitem A**, eglurwch beth yw ystyr **cyrhaeddiad addysgol gwahaniaethol**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A**, nodwch brif gasgliadau'r astudiaeth. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B**, nodwch batrymau yng nghyrhaeddiad TGAU grwpiau ethnig gwahanol yn y system addysg. [10]

*(c)* Amlinellwch ac eglurwch sut y gall ysgolion weithredu fel cyfrwng cymdeithasoli. [25]

*(ch)* Trafodwch esboniadau cymdeithasegol am y gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau ethnig. [45]



**Trosodd.**

## Opsiwn 2: Iechyd

**1.** Darllenwch eitemau **A** a **B**, ac yna atebwch **bob un** o'r cwestiynau sy'n dilyn.

### Eitem A

# Rhywedd *(gender)* ac iechyd ymysg yr henoed

Dangosodd cyfweliadau manwl mai dynion hŷn sydd wedi cael ysgariad sy'n ysmygu ac yn yfed fwyaf, ac yna daw'r dynion hŷn na fu erioed yn briod. Dynion priod sydd â'r ymddygiadau iachusaf. Mae cyfradd **marwoldeb** *(mortality)* yn is ar gyfer dynion priod nag ydyw ar gyfer dynion dibriod neu ddynion gweddw.

Pan ofynnwyd i'r dynion a oeddynt yn debygol o fynychu Canolfan Ddydd, atebodd y rhan fwyaf na fyddent yn gwneud hynny. Roeddynt yn credu mai'r unig 'weithgareddau' mewn Canolfannau Dydd oedd rhai'n ymwneud ag eistedd yn eu hunfan, sgwrsio neu chwarae Bingo – y math o bethau mae 'hen fenywod' yn hoff o'u gwneud.


Roedd y dynion na fu erioed yn briod a dynion oedd wedi cael ysgariad yn eu disgrifio'u hunain fel *'loners'*, 'unigolion' neu bobl 'hollol annibynnol'. Roedd cyfweliadau'n dangos bod dynion yn rhoi pwys ar annibyniaeth. Mae'r casgliadau hyn yn awgrymu, pan fydd menywod yn eu cael eu hunain yn byw ar eu pennau eu hunain wrth fynd yn hŷn, eu bod yn cryfhau eu cysylltiadau cymdeithasol â'u cymdogion. Ond yn achos dynion, gwanhau mae eu cysylltiadau cymdeithasol â'u cymdogion, sy'n awgrymu mai eu gwragedd a arferai fod yn bwysig ar gyfer cynnal perthnasoedd cefnogol â'u cymdogion.

Nid yw dynion am gael eu gweld yn ildio i salwch ac maent yn cyfaddef eu bod yn gohirio gwneud apwyntiad i weld y meddyg nes y byddant yn sâl iawn. Mae menywod, fodd bynnag, wedi arfer ymweld â'r meddyg yn rheolaidd drwy eu hoes ar gyfer atal cenhedlu, beichiogrwydd, neu fynd â'r plant yno pan fyddent yn sâl. Roedd y dynion a roddodd gyfweliad yn ystyried mai arwydd o wendid oedd mynd i weld y meddyg.

*Ffynhonnell:* addasiad o wefan yr *ESRC*

### Eitem B

**Disgwyliad oes a disgwyliad bywyd iach ar enedigaeth: yn ôl rhyw**




*Ffynhonnell:* addasiad o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, http://www.statistics.gov.uk

*(a)* Gan ddefnyddio **Eitem A**, eglurwch beth yw ystyr y term **marwoldeb**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A**, nodwch beth mae'r casgliadau'n ei awgrymu y gall y gwahaniaethau fod rhwng bywyd cymdeithasol dynion hŷn a menywod hŷn. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B**, nodwch batrymau yn nisgwyliad bywyd iach a disgwyliad oes pobl ers y 1980au. [10]

*(c)* Amlinellwch ac eglurwch ffactorau cymdeithasol a all effeithio ar iechyd pobl hŷn. [25]

*(ch)* Trafodwch esboniadau cymdeithasegol am ddisgwyliad oes gwahanol gwrywod a benywod. [45]

## Opsiwn 3: Crefydd

**1.** Darllenwch eitemau **A** a **B**, ac yna atebwch **bob un** o'r cwestiynau sy'n dilyn.

### Eitem A

# A yw grwpiau ffydd yn cael gormod o ddylanwad?

Gan Hanne Stinson

Yn ôl ymchwil a wnaed, does fawr o amheuaeth bod **crefydd**, sut bynnag y caiff ei fesur, yn dirywio'n gyflym.

Dangosodd astudiaeth gan y Swyddfa Gartref mai 20 y cant yn unig o'r boblogaeth sy'n ystyried bod eu crefydd neu eu cred yn rhan bwysig o'u hunaniaeth.

Er hynny, cafwyd addewid gan y llywodraeth gyfredol y byddai'n cefnogi crefydd wrth iddi geisio tynnu pobl at ei gilydd. Nawr mae cefnogaeth ariannol ar gael i grwpiau crefyddol ar gyfer eu gwaith. Cafwyd mesurau i annog grwpiau crefyddol i ddatblygu gweithgareddau cymunedol ac i annog eu harweinwyr i leisio eu barn ynglŷn â datblygu polisi ar gyfer newid cymunedol.

Yn ôl ymchwil a wnaed, mae arweinwyr grwpiau crefyddol yn wrywod bron bob amser ac maent gryn dipyn yn fwy ceidwadol eu barn na'r bobl maent yn honni eu bod yn eu cynrychioli. Mae'r Llywodraeth yn rhoi gormod o sylw iddynt. Yna mae'r arweinwyr hyn yn mynnu cael ysgolion crefyddol, cael yr hawl i wahaniaethu ar sail crefydd neu gred, neu hyd yn oed ar sail cyfeiriadaeth rywiol, a chael eu gwarchod rhag unrhyw beth sy'n ymddangos ei fod yn sarhad ar eu credoau.

Dyma'r sefyllfa sydd gennym ar hyn o bryd, sef wrth i gred grefyddol ac arferion crefyddol ddirywio ledled y DU, gan gynnwys ymysg cymunedau ffydd lleiafrifol, bod dylanwad crefydd ar bolisi cenedlaethol a lleol yn cynyddu ar raddfa enfawr.

*Ffynhonnell:* addasiad o gylchgrawn yr ESRC, *The Edge* (Gorffennaf 2006)

## Eitem B

| Blwyddyn | % o wrywod sy'n mynychu eglwys | % o fenywod sy'n mynychu eglwys |
|---|---|---|
| 1980 | 9.7 | 12.2 |
| 1985 | 8.8 | 11.5 |
| 1990 | 8.1 | 11 |
| 1995 | 6.9 | 10 |
| 2000 | 6.1 | 9.2 |
| 2005 | 5.3 | 8.2 |

*Ffynhonnell:* addasiad o'r data a welir ar y wefan, http://www.christian-research.org.uk

*(a)* Gan ddefnyddio **Eitem A**, eglurwch beth yw ystyr y term **crefydd**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A**, nodwch yr honiadau a wneir am y berthynas rhwng crefydd a llywodraeth y DU. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B**, nodwch batrymau mynychu eglwys ymhlith gwrywod a benywod yn y DU. [10]

*(c)* Amlinellwch ac eglurwch resymau pam y gall pobl fod â chred grefyddol. [25]

*(ch)* Trafodwch a yw ysbrydolrwydd *(spirituality)* ar drai *(in decline)* yn y DU. [45]